YDI HI'N AMSER I DDUW DEYRNASU DROS Y BYD?

Nodyn i'r siaradwr:
Yn 1914 cymerodd Duw gamau i reoli'r byd. Heddiw mae e'n teyrnasu drwy gyfrwng y Deyrnas Fesianaidd sefydledig. Fe fydd hyn yn golygu bendithion i bawb sy'n cydnabod ac yn cefnogi ei arglwyddiaeth frenhinol

LLAWER YN DYMUNO I DDUW GYMRYD TROSODD 'NAWR (3 mun.)

Mi fedr pawb ohonon ni synhwyro fod angen pendant ar y byd am well rheolaeth

Er nad ydynt yn wrthryfelwyr gwleidyddol nac yn anarchwyr, mae llawer o bobl yn medru sylweddoli fod y rhan fwyaf o lywodraethau yn ddiffygiol iawn (Darllen Diarhebion 29:2) (*g*80 3/22 3)

Mae anobaith ymddangosiadol yn arwain at ddifrawder a rhwystredigaeth yn hanes rhai, neu hyd yn oed at ymdrechion ofer i geisio gwella pethau

Mae rhai wedi mynd yn sinigaidd neu yn ddigred, gan deimlo petai 'na Dduw cariadlon hollalluog, y byddai wedi darpar gwell rheolaeth (*g*89 4/8 17)

Mae eraill yn credu'n gadarn ym modolaeth Duw a bod ganddo'r gallu i reoli'r ddaear yn berffaith ond ei fod e'n caniatau'r sefyllfa bresennol

Ai dyna sut 'rydych chi'n teimlo? 'Fedrech chi egluro'n gryno pryd a sut y mae Duw yn mynd i deyrnasu dros y byd?

MI DDYLAI GALLU DUW GYNYDDU'N GOBAITH A'N HYDER NI (10 mun.)

Y Beibl yn datguddio llawer am ffyrdd Jehofah a'i alluoedd

Mae ganddo'r hawl i fod yn Arglwydd Frenin y bydysawd am mai ef ydi'r Creawdwr a Ffynhonell bywyd (Salmau 36:9; Dat 1:8)

Ef ydi Darparwr Mawr y ddynoliaeth ac a fu felly erioed (Salmau 145:15, 16; *w*90 9/15 18)

Fe yrrodd Jehofah ei Fab i ryddhau'r ddynoliaeth oddi wrth bechod; yn y modd hyn fe ddangosodd Duw gariad tuag at fodau dynol

Mae Duw yn holl gyfiawn ac anllygradwy, ac felly ni fydd ei arglwyddiaeth brenhinol byth yn dirywio (Salmau 89:14)

Ei allu i ragwybod y dyfodol a sicrhau cyflawni ei ewyllys yn rhoi sail hyder i ni (*go* 17-36)

Mae Duw yn herio'r cenhedloedd a'u duwiau ynglŷn â'u gallu nhw i broffwydo (Darllen Eseia 43:9, 10) (*go* 19-22)

'Does gan y cenhedloedd ddim tystion i alluoedd eu gwahanol dduwiau nhw i ragfynegi'r dyfodol yn gywir

'Roedd yr hyn 'roedd Jehofah wedi'i wneud ac a fyddai'n ei wneud eto gyda'r Israeliaid yn eu gwneud nhw'n dystion i'w allu ef i ragwybod y dyfodol (Darllen Eseia 43:12, 13)

Fel y rhagfynegodd drwy Moses, fe waredodd Jehofah yr Israeliaid oddi wrth ormes yr Eifftiaid (Exodus 6:1, 6-8; 12:37-42; *w*88 2/1 11)

Yn ddiweddarach, fe ragfynegodd Duw y byddai'n gwaredu ei bobl oedd yn cael eu bygwth gan Asyria, ac fe wnaeth hyn (Eseia 14:24-27; *go* 31-2; *w*88 2/1 12)

Fe ragfynegodd Duw hefyd y byddai'n prynu'n ôl yr Israeliaid o'u caethglud ym Mabilon (Darllen Eseia 43:14, 15) (*go* 24-6; *w*88 2/1 12-13)

Mi fyddai'r Israeliaid a ryddhawyd yn dystion i Jehofah yn rhagddweud ei ewyllys ac yn sicrhau ei chyflawni hi

Yr holl achlysuron hynny yn adlewyrchu'r ffaith fod Jehofah'n gwybod y diwedd o'r dechreuad (Darllen Eseia 46:9, 10)

Mae hi'n rhesymegol, felly, i edrych i'w gyfeiriad ef i wybod pryd y mae hi'n amser iddo ef deyrnasu dros y byd

Mae'r Beibl yn cynnwys disgrifiad amdano yn cymryd arglwyddiaeth brenhinol drwy ei Grist (Darllen Datguddiad 11:15, 17) (*go* 34-6)

Oes 'na wybodaeth broffwydol yn yr Ysgrythurau ynglŷn ag amseru'r digwyddiad hwnnw?

Mae a wnelo hyn â'r cwestiwn sylfaenol: Ydi hi *'nawr* yn amser i Dduw deyrnasu dros y byd?

DANIEL PENNOD 4—EGLUREB BROFFWYDOL (14 mun.)

Am dros gan mlynedd, mae Tystion Jehofah ein cyfnod ni wedi dangos fod Daniel 4 yn cyfeirio at yr amser i Dduw gychwyn ar deyrnasu arbennig

Wyddoch chi am beth mae Daniel 4 yn sôn a pha reswm sy' 'na dros ei gysylltu ag arglwyddiaeth brenhinol Duw?

Rhoddodd Jehofah freuddwyd broffwydol i Nebuchadnesar, brenin Grym Byd Babilonaidd (*dp* 82-6)

Breuddwyd oedd hi am goeden uchel iawn a dorrwyd i lawr (Darllen Daniel 4:9-17)

Dangosodd dehongliad ysbrydoledig Daniel fod a wnelo'r freuddwyd broffwydol ag arglwyddiaeth brenhinol (*dp* 87-90)

Ynglŷn â'i chymhwysiad uniongyrchol, fe ddywedodd Daniel fod y goeden y pryd hwnnw yn sefyll am frenhiniaeth oedd wedi'i sefydlu ym mrenin grymus Babilon (Darllen Daniel 4:20-27)

Fe ddigwyddodd yr hyn a ragfynegodd Jehofah drwy Daniel i Nebuchadnesar (*dp* 90-4)

Ar air o'r nef, torrwyd y cadarn Nebuchadnesar i lawr (Darllen Daniel 4:31-33)

Am "saith o dymhorau," ["saith amser" *Beibl Cysegr-Lân*] neu flynyddoedd, fe fwytaodd lystyfiant mewn cae fel bwystfil; roedd fel y goeden a dorrwyd i lawr oedd â chadwyn amdani

Wedi i synnwyr y brenin gael ei adfer, fe fu iddo gydnabod y wers a ddysgasai am allu Duw (Darllen Daniel 4:34, 35, 37)

Yn union fel torri'r cadwyni ar foncyff y goeden, fe adferodd Duw frenhiniaeth y brenin hwnnw

Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig i ni: Pa reswm sy' 'na i ystyried y freuddwyd am y goeden fel amlygiad proffwydol o pryd y byddai Duw yn ymgymryd ag arglwyddiaeth brenhinol byd-eang? Os oes 'na'r fath reswm, at ba amser y mae'n cyfeirio, a sut 'rydym ni yn rhan ohono?

PROFFWYDOLIAETH YNGLŶN AG ARGLWYDDIAETH BRENHINOL BYD-EANG O'R NEF YN EIN CYFNOD NI (*it*-1 132-5; *rs* 95-7) (13 mun.)

Mae llyfr Daniel yn canoli sylw ar gyfnod o amser sy'n arwain at sefydlu Teyrnas Dduw

Mae breuddwyd y ddelw ym mhennod 2 yn cychwyn gyda llinach teulu brenhinol Babilon ac yn olrhain grymoedd byd olynol nes i'r Deyrnas gael ei sefydlu wrth iddi ddryllio teyrnasoedd daearol (crynhoi Daniel 2:44)

Pennod 7 yn rhagfynegi Duw yn rhoi "arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth" i Fab y dyn (Dan 7:14)

Pam ei bod hi'n rhesymegol mai proffwydoliaeth yn ymwneud â Theyrnas Dduw fyddai'r freuddwyd am y goeden a dorrwyd i lawr am "saith o dymhorau/saith amser"? (*it*-1 134 ¶1)

Fe broffwydodd Eseciel y byddai sathru llinach brenhinol teyrnas Dafydd a gychwynnodd yn 607 C.C.C. (cyn ein cyfnod cyffredin) yn parhau dros amser penodedig Duw (crynhoi Eseciel 21:25-27)

Parhaodd am ragor na 7 mlynedd, oherwydd wedi'r gaethglud 70-mlynedd, nid adferwyd brenhinoedd yn llinach Dafydd

'Roedd yn disgwyl am y Brenin Meseianaidd a fyddai'n teyrnasu gyda grym a chefnogaeth y nefoedd

Fe gyfeiriodd y Meseia at gyfnod y sathru ar Jerwsalem fel rhywbeth oedd yn parhau (Darllen Luc 21:24) (*it*-1 132-3)

'Roedd teyrnas Dafydd yn Jerwsalem yn cynrychioli awdurdod brenhinol Duw (1Cron 29:23)

Pryd byddai Arglwydd-Frenin y Cyfanfyd yn rhoi arglwyddiaeth brenhinol a brenhiniaeth i'r un a ddewisai, un fel mab dyn?

Breuddwyd y goeden ynglŷn ag awdurdod brenhinol dwyfol yn cyfeirio ymlaen at sefydlu Teyrnas Dduw (*dp* 94-6)

Faint o amser fyddai o pan dorrwyd awdurdod brenhinol dwyfol i lawr yn 607 C.C.C. a fynegwyd trwy frenhinlin Dafydd, nes ei adnewyddu?

'Roedd cadwyni ataliad dwyfol i gael eu cadw yn eu lle am saith amser/tymor proffwydol, neu flynyddoedd, sy'n gyfartal â 2,520 diwrnod

Gan gymhwyso'r rheol Feiblaidd "diwrnod am bob blwyddyn," fe fyddai hynny'n golygu 2,520 mlynedd, gan gyfri' o 607 C.C.C. (Esec 4:6)

Mae hyn yn rhesymol, oherwydd fe fyddai'r cyfnod hwnnw (nid dim ond saith mlynedd llythrennol) yn mynd â ni ymhell y tu hwnt i'r ganrif gynta', pan broffwydodd Iesu yr hyn a geir yn Luc 21:24

Byddai 2,520 mlynedd yn dod â ni i 1914, pan y gellid disgwyl i Dduw ail-afael mewn awdurdod brenhinol drwy gyfrwng teyrnas

Hanes yn ystod 1914 ac oddi ar hynny wedi cadarnhau'r farn i'r Deyrnas gael ei sefydlu yn y nefoedd y pryd hwnnw (*w*86 11/1 4-7; *rs* 239-40)

Ar ddiwedd y "saith o dymhorau/saith amser," dechreuodd Jehofah weithredu arglwyddiaeth brenhinol drwy gyfrwng y Deyrnas Feseianaidd (Darllen Datguddiad 11:15, 18)

Er mai ef yw Brenin y bydysawd erioed, y pryd hwnnw fe ddechreuodd Duw ar agwedd arbennig o deyrnasu

'Doedd gan y cenhedloedd ddim yr hawl mwyach i reoli dros y ddaear yn ddi-dor

Mae arwyddocâd arbennig yn hyn i ni oherwydd yr amser 'rydym yn byw ynddo

Adnod 18 yn dangos y bydd Duw yn gorfodi ei arglwyddiaeth brenhinol cyfanfydol drwy ddileu'r rhai sy'n difetha'r ddaear

Pa amodau fydd yn dilyn? Beth allai hyn ei olygu i ni?

DUW YN TEYRNASU DROS Y BYD—BETH FYDD HYNNY'N EI OLYGU? (5 mun.)

Yn rhesymegol fe fydd teyrnasu Jehofah drwy Grist yn dod â bendithion (Diar 29:2, 14; *go* 183-91)

Datguddiad yn disgrifio sefydlu'r Deyrnas, difa difethwyr y ddaear, a'r amodau fydd yn dilyn hynny

Fe fydd Jerwsalem Newydd yn troi ei sylw at y ddaear i ddod â bendithion i'w deiliaid (Darllen Datguddiad 21:1, 2)

Ni fydd y Diafol na'r cythreuliaid ddim yno i achosi problemau mwyach

Fe fydd gan y Jerwsalem Newydd, sef y 144,000 ran gyda Christ yn llywodraethu

Bydd bendithion yn llifo o orsedd Duw ar gyfer y ddynoliaeth (Darllen Datguddiad 21:3, 4; 22:1, 2) (*re* 303, 310-12)

Mae Crist yn eistedd ar ei orsedd yn y nef

Bydd darpariaethau digonol ar gyfer bywyd tragwyddol ar gael i bawb sy'n parchu Duw ac yn ufuddhau iddo

Medrwn edrych ymlaen at iacháu dwyfol pob effaith amherffeithrwydd corff a meddwl

Mor ddiolchgar y medrwn ni fod yn amser y genhedlaeth hon, oherwydd i Dduw Jehofah eisoes weithredu i deyrnasu dros y byd ac y gall pawb sy'n ildio 'nawr i'w arglwyddiaeth brenhinol ef ac yn ei gefnogi, fwynhau bendithion o'r fath!

(Glynwch yn glòs at y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir)

© 1991 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania